Cyfres Llanbedr | Hydref 1929. | Cyf. 29. Rhif 10.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Darluniau—Capel y Groes; Pantydefaid.
Gweinidogion Pantydefaid.
Hanes Capeli'r Enwad—Pantydefaid.
Dau Bregethwr ar Grwydr.
Ble Saif Undodiaeth?
Priodasau. Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

Gyrrwch archeb yn union am

Y LLYFR EMYNAU NEWYDD—

PERLAU MOLIANT

(SOLFFA)

CASGLIAD O EMYNAU A THONAU AT WASANAETH EGLWYSI UNDODAIDD GYMRU.

Prisiau :—

Lledr Hanner Rhwym, 4/6. | Lledr Llawn Rhwym, 5/6.

Lledr Morocco ac India Paper, 7/-.

Cludiad copiau unigol, 6ch. yn ychwanegol.

Derbynir archebion (*gyda blaendal*) oddiwrth Eglwysi a phersonau unigol yn awr. Anfoner at—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. HYDREF, 1929. CYF. XXIX. RHIF 10.

CAPEL Y GROES.



PANTYDEFAID.

DALIER SYLW ! !

"HANES CAPELI'R ENWAD." 1/- y Copi.

Medrid cael yr erthyglau hyn a'r rhai yn y ddau YMOFYNNYDD nesaf wedi eu printio ar Antique Paper, Royal 16mo, gyda darluniau o'r Capeli a'r Gweinidogion.

Fe gadwyd yr erthyglau mewn *type*, a charwn wybod barn yr Eglwysi o hyn i ben mis. Pe ceid *order* am bum can copi, medrid eu gwerthu am **Swllt y Copi**.

A fyddai yn ormod gofyn i bob Eglwys anfon gwybod i mi am ba sawl copi y bydd yn gyfrifol.

Oni chlywir o hyn i ben mis ni phrintir mohonynt yn llyfr.

Anfoned pob Eglwys ryw ateb.

Y GOLYGYDD.

Rhestr o Weinidogion Pantydefaid.

Dr. Charles Lloyd 1802—1803.

Dd. Jenkin Rees 1802— hyd ddiwedd gweinidogaeth John James, hwyrach hyd 1817.

JOHN JAMES 1804—1816.

Thomas Thomas, Llanfair (1811)—1816. Bu farw 1818.

JOHN THOMAS 1816—1818—1829.

...John James ...
...John Thomas ... 1829—1835.
...Rees Davies ...

...John Jones 1829—1833.

...Owen Evans 1830—1834.

JOHN THOMAS (iterum) 1835—1846 (yn ol ei ddyddlyfr).

THOMAS THOMAS 1847—1894.

THOMAS ARTHUR THOMAS 1894—1929—

Rhestr o Weinidogion a godwyd ym Mhantydefaid—

Rees Davies, Capelygroes ac Ystrad 1825—1857.

David Griffith, Onenfawr 1843—1849.

Peter Joseph, Ciliau, Cribin a Llwynrhydowen 1848—1857.

Thomas Thomas.

Titus Evans, Onenfawr.

William James, B.A., Y.H.

Lewis Davies, Cwmdyllest, a ataliwyd gan afiechyd. M.R.C.S., L.

D. Ll. Jones, Ceginan (Ysgolfeistr yn Awstralia).

Hanes Capeli'r Enwad yn Sir Aberteifi.

XI.—PANTYDEFAID.

GYDA threigl amser anesmwythodd gwŷr mwyaf blaengar y Llwyn. Yr oedd y ddeunawfed ganrif yn ganrif o anesmwytho mewn byd ac eglwys gyda'r chwyldro yn Ffrainc ac ym meddwl pob cenedl ond odid. Nid oedd yr amgylchiad ond dibwys i'r eithaf—dewis cydweinidog â Dafis Castellhywel, ond yn sicr fod hâd y sism neu'r rhwyg yn y cynulleidfaoedd yn barod. Yr oedd Dr. Charles Lloyd mab David Lloyd, Brynllefrith, hen weinidog y Llwyn yn yr ardal ac yn ceisio am y lle. Rhwydd casglu fod yna nifer yn barod i'w bleidio. Yn ei "Barticulars" td. CXIV. cwyna fod Dafis yn ymddwyn yn anhêg tuag ato drwy ensynio iddo ei Sociniaeth, ei gred am Fedydd, rheidrwydd a heresi gan ddal fod y mwyafrif yn bleidiol iddo hyd nes i Ddafis anwybyddu'r bleidlais gan ymbil dros ei fab Timothy a phregethu meddir ar y testun, "Hwy a barchant fy mab i." Nid felly ydyw'r stori gan Ddafis ac awgryma ei fod yn barod i gyd-weinidogaethu a Dr. Charles Lloyd ond iddo gael y mwyafrif o'i blaid. Y mae'n anodd bod yn sicr a gwell cerdded a chamre petrus o weld y bwriedid i'r rhwyg fod yn derfynol.

Ymedy yn ol Dafis (llythyr dydd Chwef. 2, 1803) "rhyw 9 neu Ddeg o'r Llwyn" ac ar adeg y rhwygo ysgrifennodd Dafis lythyr

"I aelodau Llwyn
Ar ymraniad presenol.

Goddefwch oll air o Gyngor.

1. Chwi oblegyd Barn neu resymmau eraill ag sydd yn ei gweled yn ddyledswydd arnoch i ymneillduo er mwyn cael Gweinidogaeth arall mwy buddiol, ymadewch mewn tangneddyf a Duw Hollalluog a'ch bendithio.

2. Chwi ag sydd yn bodloni i'r weinidogaeth ac yn amcanu aros tani, byddwch sefydlog, cynhaliwch breichiau eich gweinidogion a'ch cyd-addolwyr ; fel y mae'n gymmwys i eraill ymadael, y mae'n ddyledswydd arnoch chwi gadw 'nghyd yn gariadus o unfryd, onid ydych am wahanu'r achos ac i ddigalonni eich gweinidogion. Y peth callaf a gorau yngolwg Duw a dynion

yw i bob un sefyll yn ei briodol le a chyda'r Blaid y mae ef yn dewis—a pheidio arferid twyll gweniaeth na derbyn wyneb. Gadewch i blantos a phobl y gymydogaeth wneuthur fel y mynnont, dangosed pob aelod heb rith ymgymmysgu, beth y mae ef yn ddewis. Amcan cyntaf y gynnwrf hon oedd, ymranniad hollol a thyna raid fod ei Diwedd olaf, canys i ba beth mai gwahanol Dai, gwahanol weinidogion a gwahanol Gymundeb yn dda; ond tuag at hollol ymadael. Nid allyff fod yn ddoeth nac yn gyssurus i neb uno yn y cymundeb newydd, ag nad yw wedi llawn fwriadu gadael yr hen gymundeb. Bydded pob un sicr a sefydlog yn ei feddwl a'i Broffes ei hun.

Eich ufydd was

Da : Davis."

Fe wel y cyfarwydd ond i ni eithrio ei syniad am fedydd fod Dr. Charles Lloyd, a John James hefyd gyda llaw, yn pleidio Dr. Priestley ac ond darllain ei History of Corruptions, Vol. 1, P. 6, ceir

"The doctrine of our Lord's meer humanity is the clear doctrine of the Scriptures and that the Apostles never taught any other."

Ni fu Dr. Charles Lloyd gyda'r gynulleidfa ieuanc yn hir oherwydd fe'i ceir yn ysgrifennu o Balgrave ger Diss ar Ebrill 27, 1803 at John James yng ngoleg Ecseter dan Timothy Kenrick a Joseph Bretland yn ei ddarbwyllo i beidio mynd i goleg York am ei fod wedi bwriadu iddo weinidogaethu i'r cynulleidfaoedd ieuainc ym Mhantydefaid, Capelygroes ac Ystrad,—

"Bydd i chwi gael o gyflog rhwng Pantydefaid a Chapelygroes ac Ystrad yng nghyd ryw ddeg punt ar hugain, mwy nag a gafodd Mr. Davis (yr Hen Ddafis) o gyflog erioed."

Gyda llaw nid yw hynyna'n hollol gywir oherwydd dywed Timothy Davis (M.S. 5487 C.)

"I had been the means of raising my father's salary from twenty-four pounds to £50 pr. ann. and my own the same."

Codwyd capel Pantydefaid yn 1802 ar ddarn o dir Cwmmarch o eiddo John Jones, Pantydefaid—mab Jenkin Jones y Llwyn. Ail adeiladwyd Pantydefaid yn 1836 ac fe'i hadnewyddwyd yn 1898. Yn ol T.T. (Ymof. Ebrill, 1902, tdd. 76—80) ceir dyddiad y

lês gyntaf Ionawr 16, 1807 a'r adeilad i'w ddefnyddio yn unig i "ddynion gael cyfarfod a'i gilydd i addoli Duw mewn modd cyhoeddus a hynny yn y ffordd arferedig gan ymneillduwyr Protestanaidd fel y byddai mwyafrif y gynulleidfa mewn cymundeb yn penderfynu."

Ymddengys y weithred ar yr olwg gyntaf fel yn awgrymu rhyw ryddid neilltuol ond ofer yr awgrym i'r neb a wyr hanes. Wedi deddf Goddefiad 1689 yr oedd hawl gan Ymneilltuwyr Protestanaidd addoli yn eu tai cyrddau a chredir fod rhyw ryddid neilltuol yn yr "Open Trust" fel y'i cam enwir. Rhaid cofio fod yn rhaid i gapel dan ddeddf Goddefiad gael ei drwyddedu gan yr awdurdodau ac er cael trwydded i bregethu rhaid oedd i weinidog anghydffurfiol gydsynio ag erthyglau athrawiaethol Eglwys Loegr.

O sôn felly yn lês Pantydefaid am "Ymneillduwyr Protestanaidd" ni olyga ar yr wyneb ond credu yn "erthyglau athrawiaethol Eglwys Loegr." Ni chafwyd rhyddid i Undodwr dan 1813 ac ni ddiogelwyd yr hen gapeli a oedd wedi prifio drwy'r credoau dan basio y Dissenters Chapel Act, 1844.

Nid yw hynyna ond gyda llaw. Y mae rhestr yr Ymddiriedolwyr Cyntaf yn ddiddorol wedi chwe ugain mlynedd. I. John Enoch, Pantstreimon. II. John James, y Gweinidog. III. William Lloyd, Pontgarreg. IV. David James, Efailfach. V. David Evans, Esgairddedwydd. VI. Thomas Jones, Penwern. VII. John Rees, Gwarcwm.

Ar yr wythfed o Hydref, 1803, fe anfonwyd yr alwad yn ffurfiol o Lwynygroes at John James wedi ei harwyddo gan David Evans, Esger a D. J. Rees. Derbyniodd yntau hi mewn llythyr dyddiedig Tach. 22, 1803, a dechreuodd ar ei weinidogaeth yma yn nechrau 1804. Bu'n ddiwyd a pharchus yma. Yn 1814 daeth galwad i John James o Gellionnen. Ni roes ateb pendant ond ymrwymodd i wasanaethu Gellionnen un Sul y mis am dymor gan ddechrau tua diwedd 1814. Yr oedd Dr. Rees, mab Josiah Rees, hen weinidog Gellionnen ar ei orau yn ei ddenu ac wedi apwyntio D. L. Jones yn athro yng ngholeg Caerfyrddin yr oedd ym mryd David Davis Castellnedd gydag help John James i agor Coleg yng Nghastellnedd. Hwyrach fod a fynno hyn a dechrau ei dueddu at Forgannwg. Yn Hydref, 1815, aeth i fyw o Lloyd Jack i Llandysul at Thomas Thomas, Llanfair, gan agor ysgol yno. Yng ngwanwyn 1816 derbyniodd wahoddiad drwy law Walter Coffin (ni ellir ei galw yn alwad) i fugeilio Penybont ar Ogwr a'r Bettws ac fe'i derbyniodd ar y 26 o Fai, 1816.

Mewn cyfarfod yng Nghapel y Groes, Mawrth 17, 1818, yn yr hwn yr oedd hefyd yn bresennol rai o aelodau Pantydefaid cytunwyd yn unfarn mai gwell fyddai cael dau weinidog—Capelygroes ac Ystrad yn apelio at John James a Phantydefaid yn glynu wrth John Thomas a fu yma hyd 1829 pan aeth i fyw i Faenllwyd, Llangynnog, St. Clears.

Wedi ymadael o John Thomas, bu tipyn o gynnwrf ym Mhantydefaid cyn cael gweinidog. Yr oedd Owen Evans, y Birdlip wedi ymadael a Chaerfyrddin yn 1830 a John Jones (Aberdar) yn 1827 ac yn pregethu a chadw ysgol yn Sir Aberteifi.

Mewn llythyr o Gapel Pantydefaid, Mehefin 29, 1829, dywedir,—

"Cydunasom oll ond eich brawd i feddwl ei bod yn angenrheidiol er cadw undeb y gynulleidfa i roddi i chwi ein gwahoddiad gwresog i ddyfod yn weinidog mewn cysylltiad a Mri. J. James, J. Thomas a Rees Davies yn ein plith ni dros flwyddyn."

Ar y 26 o Ebrill, 1831, ysgrifenna Amnon at gynulleidfa Pantydefaid gan roi rhesymau dros gadw draw,—

"Pan aeth John (Pwllffein) at Mr. James a'r alwad dywedodd wrtho, bod rhai o'r dynion mwyaf cymmeradwy ac oedd arferol o ddyfod i Bantydefaid yn dweyd nad elent hwy yno byth os rhoddid galwad i John Jones * * Dydd Mawrth dywedodd un wrthyf bod cynulleidfa Pantydefaid i roi galwad i Mr. Owen Evans, dydd Sul canlynol."

Ni ddaeth dim o'r sisialon hyn oherwydd dywedir Ionawr, 13 1832,—

"Yr ydym ers tair blynedd bellach heb weinidog."

Tuag 1835 a John Jones yn Aberdâr ac Owen Evans yn Dutor yn Evesham a Birmingham dychwelodd John Thomas i Bantydefaid a bu yma yn ddefnyddiol a pharchus dan 1846. Yn ei ddyddlyfr ysgrifenna,—

"July 19, 1846 I preached at Pantydefaid from 1 Tim. 4 : 8, probably my last sermon forever at that place. The members agreed to apply for Mr. James's advice and assistance."

Ni fwriadaf i drin yr hanes. Ni wna lês i neb ond ym merw ymbleidio a rhannu y mae perigl i "wŷr ochr" fynd yn rhy bell fel y digwyddodd yma. Rhof ychydig ddyfyniadau er dangos fod cynulleidfa Pantydefaid wedi rhwygo'n ofnadwy.

"1846. Aug. 16. Mr. James preached at Pantydefaid. I stayed at home."

"Aug. 23. I went to Llwyn where Mr. Davis preached Mr. James listened outside incog. Mr. James preached at Pantydefaid and I attended."

Sept. 6. I preached at Felin-newydd by Alltyrodyn from 1 John 1 : 7."

Sept. 27. Mr. T. T. at Pantydefaid. I preached at Pantmelyn from Ps. 37 : 5, to a good congregation.
Oct. 18. Preached at Felin . . . ? House nearly full."

Dec. 12. John Penrhiwrhod told me 15 members incl. 5 Mr. Thomas of Llanfair signed an invitation on Monday to Mr. T. T. to become their minister.

(Yn ol YMOFYNNYDD Gor. 1894 td. 159 dywedir fod 112 wedi arwyddo'r alwad.

"Dec. 13. Mr. T. T. at Pantydefaid, 25 persons present. I preached at Schoolroom."

"Dec. 27. I preached at Schoolroom and administered the Lord's Supper."

"Ap. 26, 1847. Heard from Rev. James that T. T. had accepted Pantydefaid."

Y mae sŵn *tragedy* ym mroddegau'r dyddlyfr ac y mae'n dda gennyf na phroffwydodd John Thomas yn gywir yn 1846 oherwydd erbyn 1854 yr oedd amser o leiaf wedi cuddio'r graith ac yntau'n ysgrifennu—

"1854. July 29. Pre. for T. T. at Pantydefaid.

1854. Aug. 13. Pantydefaid for T.T."

Tynnaf y llen dros y cwmwl du ar adeg y gwelir ymyl arian iddo gan ddyfynnu geiriau y Prifathro W. J. Evans yn Oriel Coleg Caerfyrddin td. 31,—

"His later years were embittered by an accusation against which his high character could not wholly protect him in the presence of rival interests. His biographers have usually glossed

the incident over: suffice it to say that he suffered without dishonour."

O wanwyn 1847 i wanwyn 1894 rhoes y Parch. Thomas Thomas ei oran i Bantydefaid ac i'w ysgol ym Mhontshân. Ys dywedai W.J. (yn yr Inquirer) am T.T. adeg ei ymddiswyddo prynhawn Sul, Mai 27, 1894,—

"Mae wedi dal safle blaenllaw yn ein heglwysi am ddeugain mlynedd, ac wedi cael ei gydnabod fel un o'n prif bregethwyr mewn cyfarfodydd cyhoeddus. lle yr oedd ei allu ymresymiadol, ei addysg sylweddol a'i hyawdledd dirodres, bob amser yn tynnu sylw neilldiol. Darfu i'w lwyddiant mawr hefyd, fel ysgolfeistr, ychwanegu at ei enwogrwydd ac estyn ei ddylanwad ymhell tu hwnt i derfynau ei gyfundeb ei hun."

Erbyn heddiw y mae'i olynydd y Parch. T. Arthur Thomas wedi bod yn y weinidogaeth bymtheg mlynedd ar hugain ac yn ystod rhyw 127 o flynyddoedd ni fu i Bantydefaid ond pedwar o weinidogion- record rhagorol mewn rhagor nag un ystyr, a dwed Erw Duw ei bod yn Facpelah teuluoedd ardal eang. Medr edrych yn ol heb gywilyddio. Gobeithio fod y wawr yn ei llygaid ac y cerdd rhagddi gan ddysgu oddiwrth y teidiau i garu egwyddor ac i fyw ei chrefydd.

O.

(Gweler Capel Pantydefaid gan y Parch. Thomas Thomas, Y.H. Ymof. Ionor 1902, tdd. 1—4. Ymof. Chwef. tdd. 28—32. Ebrill 1902, tdd. 76—80. Mehefin 1902, tdd. 121—125. Ynghyd a'i erthyglau o 1890—1900 ar John James, Gellionnen).

Dau Bregethwr ar Grwydr.

YN fore—ie, yn fore blygeiniol iawn—rhyw ddiwrnod y mis diweddaf, cychwynais o dref gyda Llyn Teifi—Llynnoedd Teifi, yn hytrach—fel cyrchfan. Ar y ffordd i dref Llanbedr, lle bwriadwn uno â chyfaill mynwesol a diddan fel cyd-ymaith, cwrddwn ag ambell un ar ei ffordd at ei orchwyl am y dydd. "Os rhywbeth mâs o le?" ebr un o honynt wrthyf. "Na, dôs dim mâs o le, belled ag y gwn i, os nad ôs rhywbeth mâs o le fan hyn," gan godi o honof fy llaw tua chyfeiriad y taleen. Cyrhaeddais i Lanbedr cyn i nemor o neb o'r trigolion godi o'u nosol orweddle. Rhyw deimlad od a berid imi o fynd fel hyn i

dref yn y bore, gyda'r heolydd yn wâg, a phob arwydd o fywyd fel pe wedi diflannu'n llwyr. Nid hollol wâg oedd yr heolydd hefyd, eithr nid pobl Llanbedr mo honynt: yr oedd yno amryw â'u hwynebau tuag arddangosfa amaethyddol Llangeitho, gyda'u beichiau o ffrwythau o bobmath, yn disgwyl am ddyfod y cerbyd a'u cludai yno. Am y rheswm yr adnabyddwn un neu ddau o honynt, y peth cyntaf a wneuthum, pan ddaeth y papur lleol i'm llaw ymhen rhyw ddeuddydd, oedd troi i golofn adroddiad yr arddangosfa; ac wele, yn adran y ffrwythau, ymron ar yn ail linell, dim ond yr enw Bolahaul a'm hwynebai. Da iawn. Eraill drachefn a gyfeiriai eu camre—eu modur, yn hytrach: gair ymron di-alw-am-dano ydyw'r gair camre yn y dyddiau hyn—tua phentref Gwernogle, i gyfarfod ordeinio gweinidog. Rhyw fyd hynod yw hwn, onite? Y byd dynol a olygaf, ac nid y byd naturiol. Croesi llwybrau'n gilydd yn ddiderfyn a wnawn—un i'w faes, arall i'w fasnach; un i gwrdd arall i ben y mynyddoedd i gymuno â natur yn ei gwylltoedd cyntefig. Ond—rhaid prysuro i'r daith.

Ni fuom yn hir cyn dod o honom i Bontrhydfendigaid. Dyma wir ddechreu'r daith ramantus: o leiaf, dyna ddechreu'r rhan fwyaf diddorol o honi. O'r pentref cyfeiriasom ein camre tua hen fynachlog Ystrad Fflur. Dim ond adfeilion a welir bellach; eithr dyry hyd yn oed adfeilion hen sefydliad o'r fath hyn i'r darfelydd byw gyfle i dynnu darluniau hynod iawn am a fu. Wedi sierhau ohonom fynediad i'r cynteddoedd, cawsom gryn sypyn o wybodaeth parthed hanes y sefydliad gan y fonesig a fu mor garedig a dod gyda ni yn gwmni; neu, yn iaith y Sais, fel *cicerone*. Ychwanegai a ddywedai wrthym gryn lawer at ddiddordeb yr ymweliad. Yn y 12fed ganrif y'i hadeiladwyd gan un o dywysogion y De o'r enw Rhys ap Gruffydd. Dinystriwyd hi gan dân tua'r flwyddyn 1295 neu 1296; eithr ail-adeiladwyd hi, a bu mewn bod hyd y'i dat-gorfforwyd gan Harri VIII. Erys digon o'i hadfeilion i roddi i'r sylwedydd syniad lled dda am orwychter yr adeiladau. Yma y claddwyd ei sylfaenydd—Rhys. Nodir man ei fedd gan hirfaen trwchus. Y mae yno olion hen feddau eraill—beddau'r mynachod, meddir. Nodir hwythau hefyd gan hir-feini trwchus. Wedi inni gael digon ar sylwi ar yr adfeilion, a dodi o honom ein henwau ar lyfr yr ymwelwyr, aethom i'r fynwent ger llaw, i weld a sefyll uwch man tybiedig gorweddfa gweddillion Dafydd ap Gwilym—tan yr hen ywen; ie, *hen* ywen; ni all fod amheuaeth parthed ei henaint; dwg bob arwyddion henaint o'i bôn i'w brigau. Dywedaf *tybiedig*, am nad oes sicrwydd mai yma y'i claddwyd. Honnir gan lawer mai ym mynwent Eglwys Talyllychau y gorffwys ei weddillion. Nad beth am hyn, talasom *ni* ein teyrnged i'w goffa trwy sefyll o honom yn ben-noeth am ennyd tan "yr (hen) ywen ddu ganghennog." Dyn hynod oedd Dafydd—yr enwocaf, yn

ddiau, o feirdd Cymru—eddieithr y rhoddir iddo ef glod a gyfiawn berthyn i'r hen Iolo.

Wedi dod o honom allan o'r fynwent, buom mor ffodus a chael gair o gyfarwyddyd gan frodor. "Dilynwch yr afon," meddai, "hyd y dewch at gapel Methodis; yna, trowch ar y chwith." Wedi i ni gerdded a cherdded, heb un arwydd o ddim tebig i gapel, dechreuasom wangalonni, ac ofnem ein bod wedi crwydro o'r ffordd iawn. Ymhellach, daeth cawod drom iawn o law, a thybiasom fod pob gobaith am fynd o honom ymhellach wedi diflannu. Eithr nid teilwng o'r enw darganfyddwr mo'r dyn a gymer ei ddigalonni gan gawod o law, drymed y bo. Aeth y gawod heibio ac aethom ninnau rhag blaen, heb weld na dyn nac anifail gyda'r eithriad o ambell ddafad a darfai rhagom, heb aros i roddi inni, gymaint a gair o gyfarwyddyd. "Odi ni ar y ffordd i Lyn Egnant?" "Na, ewch chi byth i Lyn Egnant ffordd hyn." Gyda hyn, gwelsom gapel bychan ar ochr y bryn gyferbyn â ni, ac adfywiodd ein gobaith a'n hysbryd; a bu "Capel Methodis" yn well cyfaill inni yn ein trybini na dyn. Cyfaddefodd yr olaf, fodd bynnag, nad oedd yn gyfarwydd iawn a'r gymdogaeth; a gwir a ddywedodd. Yn ymyl y Capel yr oedd fferm. Yno cawsom obaith gwell o weld pen y daith. Curwyd wrth y drws, a daeth gwreigan tua chanol oed i ateb. Gwisgai "spectol," a thybiais y gwelswn ar ei hwyneb drem fyfyrgar, a chesglais mai rodi, o ddarllen ei Beibl a wnaeth. Nid sicr ydwyf na pherodd yr olwg gyntaf arnom iddi dipyn o syndod. Nid yn aml, yn ddiau, y'i blinid gan grwydriaid fel ni. Ditlannodd yr arwyddion o syndod yn y man, a daeth gwên siriol dros ei hwyneb, a rhoddodd inni y cyfarwyddyd a geisiem. Bendith Duw a'i dilyno. Brysiasom ar ein taith hyd ffordd gul, di gloddiau arw, geriglog, greigiog—braidd y cofiaf ddigon o ansoddeiriau i roddi darluniad teilwng a chywir o honi. Hoffwn i ddim bod yn geffyl i dynnu unmath ar gerbyd hyd y fath ar heol a hon. Wedi inni gerdded am tuag awr o amser, teimlwn y coesau a'r traed yn dechreu achwyn: eithr cerddai ty nghydymaith yn gryf a heinyf, gryn bellter o'm blaen. Yn y man gwelais ef yn sefyll ar fryncyn, ac yn chwifio'i gapan, gan waeddi rhywbeth na fedrwn i mo'i ddeall—*eureka*, o bosibl. Dug hyn imi nerth newydd, a buan y safwn yn ei ymyl, ac uwch ben—Llyn Egnant. Dyma'r Llyn cyntaf a welsom eithr nid oeddem eto wedi dod i olwg Llyn Teifi. Ynghwrs ein hymchwiliad gwelsom gynifer a phedair o lynnoedd: yn olaf, Llyn Teifi—y chweched. Dyma ni, ynteu, wedi darganfod tarddle Afon Teifi. "Eraill wedi'i ddarganfod o'ch blaen chwi," ebe rhywun. Beth am hynny? Dyma'r tro cyntaf i *ni* i'w darganfod.

Er mai Llyn Teifi a ystyrrir fel tarddle'r afon, eto una dyfroedd y chwe llyn i'w ffurfio yn nes i lawr yn y dyffryn. Wedi inni

atgyfnerthu'r dyn oddi mewn—a chyda llaw, sicr ydyw na fwynhaodd neb erioed bryd o fwyd yn well—rhaid oedd syllu ar y golygfeydd o'n cylch—dim ond mynyddoedd cribog ymhob cyfeiriad, heb na dyn na thŷ yn y golwg, ag eithro un ar lan y llyn—lluesty i ymwelwyr yn o debig—ac ychydig bysgotwyr. Un peth a dynnodd fy sylw'n arbennig oedd maintioli anferth rhai o'r crynfeini (boulders) a frithai'r cylchynedd, un yn neilltuol a bwysai,, yn ol a farnwn i, o leiaf ddeg tunnell. Er's pa oesoedd y gorwedd hwn yn y man y'i gwelais? Miloedd—cannoedd o filoedd—miliynau o bosibl—o flynyddoedd. O na fedrwn olrhain ei hanes yn ol i'w ddechreu cyntaf! Ond ba well ydwyf o son am hanes peth fel hyn? Y mae ffurfiad pob carreg, nad beth ei maint, yn llwyr tu allan i gylch hanes. Dim ond y darfelydd a ddyry inni un help mewn achos o'r fath hyn. Er nad yw hynny o help a ddyry'r darfelydd inni yn fawr, eto gall y darfelydd ein cludo'n ol i'r miliynau heb ofni gwrthwynebiad nac ameu ar du neb.

Dychwelasom i'r Bont hyd ymyl yr afon. Dyma ni â'n hwyncbau tua gwlad Edward Richard; ac nid oedd dychwel tua thref yn bosibl neb inni ymweld â'r Ysgoldy ym mhentref a cher Eglwys Ystrad Meurig. Buom yn ffodus i ddod i gyffyrddiad ag arweinydd rhagorol iawn—bachgennyn tua deuddeg oed, o wyneb llon, siriol, o drem ddeallgar hwnt i'r cyffredin, a wyddai gryn dipyn o hanes y sefydliad a'r sefydlydd a'i olynwyr. Aeth â ni yn gyntaf i'r brif ystafell. Yna, i'r llofft. Yno aeth â ni i ystafell fechan a fu, rywbryd, ebr ef, yn "ystafell dywyll"—math ar garchardy ysgol, mi dybiwn, wedi'i fwriadu i fod yn gyfrwng i ddwyn tipyn o reswm i ben ambell i ddisgybl anhywaeth. "Ystafell dywyll!" braidd na theimlwn ryw ias o ddychryn yn treiddio trwof o feddwl am yr anffodusion a fu'n dihoeni tu fewn i'w muriau oblegid troseddu o honynt reolau rhyw athro byr ei amynedd—byr ei amynedd ym marn y troseddwyr, eithr amynedd o hir drethiad yn fynych ym marn yr athro, yn enwedig athro heb lawer o ddiddordeb yn ei waith.

Ac o son am athro, dygir i'm cof ddarluniad byw Goronwy Owen o'i brofiad. Dyma a ddweyd: "Mae'r ysgol ddiflas yn agos a'm nychu fi. Pa beth a all fod yn fwy diflas a dihoenllyd i ddyn sydd yn myfyrio, na gwastadol gwrnad a rhineyn cywion Saeson? Prin caf odfa i fwyta fy mwyd ganddynt—a bychan a fyddai fod cell haiarn i bob un o honynt o'r neilltu, gan yr ymdderu a'r ymgeintach y byddant: ac fel tynnu afanc o lyn yw ceisio eu gwastrodedd."

Nid oedd Oronwy wedi'i dorri allan i fod yn athro, a gresyn i reidrwydd gael ei osod arno i geisio llanw'r swydd. Eithr nid

dyna brofiad pob athro. Yn olaf daeth y bachgen â ni i ystafell y llyfrau llyfrau Edward Richard yn o debig. Amlwg ydoedd inni, o sylwi ar y llwch tew a guddiai'r llyfrau, na thelir iddynt y sylw a haeddant. Annhebig ydyw y daw'r llinellau i sylw'r un o'r athrawon; eithr pe digwydd iddynt ddod, dywedaf wrtho: "Prynwch ddwster, a gwnewch ddeunydd da o hono. Os yn bosibl, cesglwch drysorfa, i'r diben o ail rwymo'r llyfrau, a threfnu gwell gofal o honynt yn y dyfodol. Gwnewch hyn o barch i'r rhoddwr." Ni allem ymadael heb gael golwg ar yr Eglwys a'r fynwent- yn yr olaf, i gael golwg ar fedd Edward Richard; eithr er chwilio, nis cawsom, ac ni wyddai ein cyfarwyddwr ei leoliad. Gwelsom faen caboledig, trwchus, wedi'i osod ym mur yr Eglwys heb ddim arall yn gerfiedig arno ond "Edward Richard." Yr oeddym felly, os nad yn ymyl ei fedd, eto heb fod ymhell oddiwrtho. Un o gymwynaswyr goreu ei genedl a fu ef. Wrth ffarwelio â'r bachgen, gofynnais iddo "beth a fwriadwch fod, machgen i? Offeiriad?" "Wn i ddim eto," oedd ei ateb, ac ymdaenodd gwên calon lân plentyn dros ei wyneb; amlwg ydoedd imi daro tant yn ei natur a'i bodlonai'n fawr. Hoffwn gael adnabyddiaeth bellach o hono; eithr nis caf, 'rwyn ofni.

Erbyn hyn yr oedd yn bryd troi'r wyneb tua'r orsaf. Gyda dyfod y gerbydres i mewn, pwy a anneidiodd arnom o un o'r cerbydau ond yr hen gyfaill cywir, difyr, a thwymgalon Tim Evans o Lanbedr; ynteu hefyd wedi bod am ddiwrnod o wyliau. Wedi imi adrodd tipyn o helynt y dydd, "O wel," meddai, "fe ddaw llith ar ol heddi, mi welaf." A dyma hi, Mr. Gol.; gwnewch a fynnoch â hi.

D.E.

Ble Saif Undodiaeth?

ODRO i dro, drwy garedigrwydd pobl hŷn na mi, cefais ambell gipolwg ar YMOFYNYDDION yr oes o'r blaen. Gan nad beth feddylia pobl heddiw am gynnwys yr hen YMOFYNYDDION, medrwn ddweyd un peth am danynt nid oedd le i gamgymryd amcan eu bodolaeth. Cylchgrawn UNDODAIDD oedd YMOFYNNYDD diwedd y ganrif ddiweddaf heb os nac onibai. Dadleu dros y safbwynt Undodaidd wnai gohebwyr yr hen YMOFYNYDDION, ac yr oedd yna *bwysau* yn eu herthyglau. (Tymor yr eogiaid oedd hi, mae'n debyg!)

Heddiw ag eithrio ambell i adroddiad o gwrdd chwarter neu gyfarfod blynyddol y Gymdeithas, ac erthyglau hanesyddol y

Golygydd, byddai yn dipyn o gamp i neb wybod fod unrhyw berthynas rhwng yr YMOFYNNYDD a'r mudiad Undodaidd.

Nid colled i gyd hwyrach diflannu o'r hen ddadleuon pybyr ar bynciau diwinyddol, ond yn sicr ni wnai un niwed i ni gael ein hadgofio ambell i dro fod yna gyfnewidiadau a dadblygiadau o hyd yn naliadau crefyddol Undodiaid, hyd yn oed.*

Tebyg y gŵyr y rhan fwyaf o ddarllenwyr yr YMOFYNNYDD Cymraeg, fod yna Ymofynnydd Saesneg hefyd (The Inquirer). Dyna yr unig gylchgrawn Undodaidd Saesneg o bwys yn awr gan fod y "Christian Life" wedi ei ymgorffori yn yr "Inquirer" rai wythnosau yn ol. O ddarllen yr "Inquirer" o wythnos i wythnos, fe'n synnir gan bybyrwch y dadleuon sydd ar droed ynglyn a phynciau o athrawiaeth Gristionogol. Yr ydym ni, Undodiaid, wedi arfer llongyfarch ein hunain fod ein daliadau crefyddol ni wedi eu selio ar ddysgeidiaeth Iesu ei hun yn hytrach nag ar ddysgeidiaeth pobl ddiweddarach ar Berson Iesu a'r berthynas rhyngddo a Duw a dyn. Proffwyd ac athro yw Iesu i ni, ond faint ohonom tybed, sydd erioed wedi meddwl fod yna le i wahaniaeth barn rhwng Undodiaid ynglyn a dysgeidiaeth Iesu ei hun. Ond ymddengys fod yna wahaniaeth, a gwahaniaeth difrifol, rhwng syniadau ein pobl ni, a barnu oddiwrth yr ohebiaeth yng ngholofnau yr "Inquirer" yn ystod y misoedd diweddaraf hyn. Pwnc yr ohebiaeth ydyw—Crefydd yr Iesu—"The Religion of Jesus" Dr. Jacks, Prifathro Coleg Manceinion, Rhydychen, sydd yn cynhyrfu y gwersyll. Nid priodol hwyrach fyddai galw Dr. Jacks yn Undodwr—efe ei hun fyddai y cyntaf i wrthod unrhyw fath o label ddiwinyddol. Ond teg yw cofio mai bechgyn yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth Undodaidd yw y mwyafrif o fyfyrwyr ei goleg. Nid diwinydd ychwaith, nac ysgolor Beiblaidd, yn y lle cyntaf yw Dr. Jacks ond athronydd, ond mae ei fri fel meddyliwr yn ddigon i wneyd dylanwad ei farn ar unrhyw bwnc yn gryf ar ymchwilwyr am y gwirionedd.

Mae yr ohebiaeth yn yr "Inquirer" yn cynnwys cyfraniadau oddiwrth feddylwyr craill o fri, yn eu mysg, Dr. Mellone, Dr. Gow a Dr. Mclachlan a'r Parch. Travers Herford, ac nid yw Dr. Jacks wedi cael ei ffordd ei hun yn gyfangwbl. Amhosibl ydyw dilyn yr ohebiaeth i gyd, ond ymddengys mai prif haeriad Dr. Jacks ydyw ein bod ni fel Cristionogion Rhyddfrydig, drwy ymafaelyd mewn rhannau neilldiol o'r Testament Newydd i gyfiawnhau ein

* Pam hyd yn oed? Mudiad, nid enwad yw Undodiaeth. Cyfeiriad nid safle. (GOL).

syniadau ein hunain, yn tynnu darlun *un-ochrog* o Iesu hanes. Yn un o'i erthyglau dywed rywbeth yn debyg i hyn—"Na cheir cefnogaeth i dueddiadau cytriniol (mystical) a dyndodol (humanitarian) rhyddfrydiaeth yr oes hon yn y tair efengyl gyntaf—o'i dehongli yn eu cyfanrwydd, ac yn unol a'r hyn a ddywed Marc yw pwrpas ei efengyl." Anodd yw dweyd faint o gyfriniaeth sydd yn Undodiaeth ein dyddiau ni—ond os nad yw Iesu carwr dynoliaeth, cyfaill publicanod a phechaduriaid, a benywod a phlant—os nad yw yr Iesu yma ond ffrwyth dychymyg, neu gynnyrch gwybodaeth amherffaith ac un-ochrog o'r efengylau onid yw yn bryd gofyn: Ble saif Undodiaeth? Nid yw Dr. Jacks heb gael ei ateb ar y pwynt yma, ac y mae'r Parch. Travers Herford er engraifft, wedi nodi'r gwahaniaeth rhwng crefydd yr Iesu a diwinyddiaeth yr Iesu. Desgrifir crefydd yr Iesu fel ei ogwydd feddyliol tuag at Dduw, a dywedir mai yng Ngweddi'r Arglwydd a'r Damegion y ceir mynegiant cywir o'i ogwydd ac felly o'i grefydd. Dywed y gohebydd yma ym mhellach, y medr yr awn a gais seilio ei grefydd ar grefydd yr Iesu, ddyfod i wybod yr hyn oll sydd eisiau arno i wybod, sef dysgu edrych i fyny at Dduw fel y gwnai Iesu ei hun. Dywed ymhellach y medrwn hefyd i ryw fesur gael yr hyn gafodd yr Iesu o edrych i fyny fel y gwnai ef.

Yn wyneb yr atebion i'w haeriadau dywedodd Dr. Jacks fod arno ofn nad oedd yr oll o'r gohebwyr yn ddarllenwyr manwl na chyson o'r Testament Newydd. Awgrymodd y byddai yn beth da iddynt eistedd i lawr a darllen unrhyw un o'r efengylau o'i dechreu i'w diwedd, ac yna gofyn iddynt eu hunain yn onest—"Beth sydd yma mewn gwirionedd." Awgrymodd, os nad oedd pobl yn foddlon cymeryd y drafferth hyn, o leiaf iddynt ffurfio barn am Iesu a'i grefydd ar sail darnau dewisedig a ddarllenir o bulpudau "rhyddfrydig." Yn wyneb awgrymiadau plaen Dr. Jacks, mai ffurfiau llygredig" o Gristionogaeth ydyw y rhan fwyaf o ffurfiau sydd yn bodoli heddiw—gofynnodd rhai o'r gohebwyr yr "Inquirer" iddo am osodiad cadarnhaol o'r syniadau a goleddai ef ei hun ar ol darllen y Testament Newydd fel y cynghorai i eraill wneyd. Cydymffurfiodd y Prifathro a'r cais yma ac mae yn werth nodi ei osodiadau. Dywed:—

1.—Mai y swyddogaeth hanfodol a briodolir i'r Iesu drwy y Testament Newydd ydyw Gorchfygwr Marwolaeth, neu, Yr Hwn a Ddug Anfarwoldeb—"yr hwn a eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu, yn ol Ysbryd Sancteiddiad drwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw." Ymhellach, mae yna berthynas hanfodol rhwng yr oll o addysgiadau a gweithredoedd yr Iesu a'r swyddogaeth yma, ac amhosibl ydyw deall y Testament Newydd na'r efengylau, heb gadw golwg ar hyn.

2.—Yr hyn a gynhygir i'r crediniwr yn y Testament Newydd ydyw *anfarwoldeb*, a enillir drwy gyfrannu o fywyd a sylwedd y Crist anfarwol, Gorchfygwr Marwolaeth. Cyfrennir o'r bywyd a'r sylwedd yna yn bennaf drwy Ffydd, ac yn ail drwy Fedydd a Swper yr Arglwydd.

3.—Fod yr oll o'r Efengylau wedi *tyfu o amgylch* hanes y Croeshoeliad a'r Adgyfodiad. Dyna yr oll o hanes Iesu oedd yn wybyddus i ysgrifennwyr yr epistolau ac awdur Llyfr Datguddiad, neu o leiaf dyma yr oll a gyfrifent yn bwysig.

4.—Fod addolwyr y Crist adgyfodedig yn credu eu bod mewn cymundeb uniongyrchol ag Ef yn ei Ogoniant, a'u bod yn derbyn oddiwrtho "ddadguddiadau" ar ffurf gweledigaethau, cenadwriaethau, a chyfarwyddiadau.

Fod llawer o'r dywediadau a'r gweithrediadau a briodolir yn yr Efengylau i Iesu hanes wedi tarddu yn y lle cyntaf o gofnodion o'r gweledigaethau goruwch naturiol yma. Er engraifft, dyma darddiad y storiau am y Gweddnewidiad, Iesu yn rhodio ar y môr, yn porthi y miloedd a llawer o wyrthiau eraill.

5.—Fod dysgeidiaeth foesol y Testament Newydd yn rhwym wrth y gred yng ngallu achubol y Crist, Gorchfygwr Marwolaeth. Nid oedd anghredinwyr yn y gallu achubol yma i gyfrannu o addewidion yr Efengyl. Condemniwyd hwy, yn aml mewn modd creulon a ffyrnig. Yn ol yr Efengylau, gweithredai a dysgai Iesu ei hun yn unol a'r ysbryd cyfyng yma.

6.—Fod yr addysgiadau a briodolir i'r Iesu, y rhai sydd yn aml ond nid bob amser yn aruchel, yn tarddu o ragor nag un ffynhonnell. Cynnyrch oes neillduol ydynt ac nid cynnyrch meddwl un dyn. Fe wneir i'r Iesu fynegi syniadau pleidiau gwrthwynebol ac nid yw yn bosibl gwahaniaethu rhwng geiriau yr Iesu ei hun a geiriau eraill.

7.—Fod ffigwr areglur ac arwrol Iesu yn ffaith hanesyddol. Ond nid oes sail hanesyddol dros credu fod ganddo gwmni o ddeuddeg disgybl drwy gydol ei weinidogaeth. Damcaniaethau pur, felly, ydyw y syniadau fod Cristionogaeth wedi tarddu oddiar ddylanwad personoliaeth yr Iesu ar gwmni o ddisgyblion.

8.—Fod yr hanes a geir yn Llyfr yr Actau am darddiad Cristionogaeth heb ddilysrwydd hanesyddol.

9.—Fod y genadwri oedd yn cynnyg anfarwoldeb drwy ffydd yn y Crist Adgyfodedig wedi taro tant i ba un yr oedd meddwl yr oes honno yn awyddus i ymateb.

Fod y genadwri yma yn ei hanfod y genadwri grefyddol fwyaf byw a gynhygiwyd i'r byd erioed.

Fod y genadwri yma yn anghymarol fwy mawreddog, mwy dwfn, a mwy nerthol na'r genadwri a adeiladir heddyw ar addysgiadau "Iesu hanes."

Fod yn y genadwri yma elfennau sydd o werth di-ddarfod, elfennau sydd yn ei chysylltu a gobeithion cadarnaf a meddyliau dyfnaf yr oesau.

Y gwnaiff y genadwri yma ail ymddangos eto yn y dyfodol, wedi ei rhyddhau oddiwrth bob amheuaeth hanesyddol, a phob ysbryd cyfyng ac y gwnaiff ato esgor ar "weithredoedd nerthol" o iachad i'r cleifion a goruchafiaeth ar farwolaeth.

Dyma yn ol y Pritathro Jacks ydyw baich neges y Testament Newydd i ni. Nid cywir fyddai synio cofier mai dyna grefydd yr Athro ei hun—yr oll a ddywed yw mai dyma a ddysg y Testament Newydd. Os yw yr Athro yn iawn, rhaid addef fod ein syniadau ni ym mhell o fod yn unol a dysgeidiaeth y Testament Newydd. Ond cyfyd gofyniad neu ddau: (1) A ydyw yr Athro yn iawn. Tebyg y bydd gan eraill rywbeth i'w ddweyd.

Yr ail ofyniad a gofyniad mwy pwysig ydyw—Beth os ydyw yn iawn, a oes angen i ni bryderu am eiliad—a oes angen i ni ildio mymryn o'n argyhoeddiadau, neu ynte a fedrwn ateb a dweyd yn hyglyw—"Os mai darlun un ochrog sydd gennym, dyma o leiaf ochr oreu'r darlun. Os mai darlun un ochrog sydd gennym, ni biau'r unig ran o hono a fedr foddloni meddwl a chalon—dyma'r unig ran o hono sydd a *neges* i ddyn rhesymol." Atebed rhywrai.

Y Nottais. T.L.J.

"DIM HWYL."

Menna'n floesg, a minnau'n flin—yr annwyd
Yn ein bronnau'n gethin;
A'n hyder ym malm gwerin,—
Uwd a llaeth a thê had llin.

EIFION WYN.

Priodasau.

Dydd Sadwrn, Awst 10fed, yng Nghapel Henrietta, Abertawe, ac o flaen y Cofrestrydd a'r Parchn. J. Price, Rhydyfro a D. G. Rees, Trebanos, priodwyd Mr. Henry Brynmor Morgan, Trebanos a Miss May Harries, Rhydyfro, Pontardawe.

Awst 28ain, yng Nghapel yr Annibynwyr Docks, Llanelly, gan y Parchn. S. E. Gealy a T. Arthur Thomas, Llandysul, Mr. William J. Thomas, mab henaf Mr. a Mrs. D. Channing Thomas, Brynderwen, Llandysul, â Miss Ada Matilda Howell (Tilly), merch henaf Mr. John G. Howell, Ropewalk Road, Llanelli. Y bendithion goreu fo ar yr uniad.

Awst 30ain, yng Nghapel Neuaddlwyd, gan y Parch. T. Gwilym Evans yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Conwil Evans, David Edwin Davies, mab Mr. a Mrs. Davies, Foelallt, Ciliau Aeron â Miss Annie Blodwen James, merch Mr. J. M. James a'r diweddar Mrs. James, R'iwbrenfawr, Llanarth. Hir oes ŷda phob llawenydd a phob bendith ddaionus a'u dilyno.

Marwgofion.

Gorffennaf 22ain, yn 66 mlwydd oed, bu farw Mrs. Margaret Jones, annwyl briod Mr. John Jones, Y.H., Cwmere, Felinfach. Ni fu amser ei chystudd yn faith iawn, ac am hyny mae'r ergyd i'r priod a'r plant a chysylltiadau'r teulu yn drymach. Benyw lawn ym mhob cylch ydoedd, a bryd ei chalon ar hyrwyddo pob symudiad da, distaw a chywir ei rhodiad ac ymarferol ei mheddwl i bob daioni a charedigrwydd, a gwnaeth ei rhan yn anrhydeddus yng nghylch ei chartref, gyda chrefydd, ac yn y gymydogaeth. Dyma un o wragedd nodedig, ac un o famau rhinweddol y fro wedi mynd oddi wrth ei llafur at ei gwobr. Wrth feddwl am ambell i wrthrych, a chofio am ambell i aelwyd daw hen atgofion fyrdd a chysylltiadau persawrus i'r cof. Merch Tynant oedd Mrs. Jones, a gwraig Cwmere, ac y mae hyn yn ddigon i gylch eang iawn o gydnabyddion. Tynant,—pwy na wyr am dano fel trigfan arloeswyr mewn amaethyddiaeth ar hyd yr oesau, fel aelwyd enwog am ei charedigrwydd a siriolded ei chroesaw? Ac nid ydym yn gorddywedyd i'r ymadawedig i gario ymlaen yn anrhydeddus draddodiadau y teulu yn ei dydd a'i thymor. Llu mawr sydd o hyd yn cofio yn ddistaw a diolchgar am ddrws agored a chroesaw siriol Cwmere. Gwâg yw'r aelwyd gartref, a gwâg y gymdogaeth heb ei phresenoldeb ac fe deimlir hyn am hir, hir amser. Caffed y priod a'r teulu nerth i ymgynal dan y gawod, a chydymdeimlir yn fawr a hwynt; y brodyr a'r chwiorydd a'r perthynasau i gyd. "Ac yr oedd yn wraig fawr,"—gwraig lawn a da, mam dduwiol a rhinweddol. "Bydded eich cysur yn y pethau hyn." Iau canlynol rhoddwyd ei gweddillion i orwedd ym mynwent Capel Tynygwndwn, pryd y gwasanaethwyd yn y tŷ ac yn y Capel gan y Parch. Gwilym Evans, Aberaeron, ac ar lan y bedd gan y Parch. D. Conwil Evans, Rhydygwin. Heddwch i'w llwch.

Awst 15fed, ar ol hir gystudd, ac ar adegau yn dra phoenus, bu farw Ann Jenkins, Felinrhiwbren, yn 67 mlwydd oed. Benyw dawel, o galon garedig, ac o ysbryd hynaws a siriol yn gweld yr ochr oleu i bob cwmwl du. Ni chlywyd gair angharedig ganddi am neb, a threuliodd ei blynyddoedd yn ddi-dramgwydd a defnyddiol yn ei chylch yn ddistaw a dirodres a chan roddi lle i bethau goreu bywyd yn ei dydd a'i thymor. Yn nodweddiadol o hen deulu ffyddlon y Felin, meddai ar feddwl annibynol a thraethai ef yn ddiofn a bob amser yn syml a phlaen. Estyn-

wn i'r chwaer a'r ddau frawd sydd eto ar ol yn yr hen gartref ac a fuont yn gweini yn dyner a gofalus arni yn ei dyddiau blin, bob cydymdeimlad yn eu trallod, hefyd i'r teulu sydd ar wasgar a'r perthynasau i gyd. Y Mercher canlynol daeth tyrfa luosog i'r angladd o barch iddi, ac i dalu'r gymwynas olaf i'w gweddillion a roddwyd i orffwys ym mynwent Eglwys Llannerch Aeron. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. D. Conwil Evans, ac yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y Parch. J. Alban Davies, Ficer, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. D. Jones, Mydroilyn a Davies, Newton Abbot.

IAU, Awst 29ain, yn 71 mlwydd oed, John Jones, Laurel Cottage, Herbert Street, Pontardawe. Wele eto, amgylchiad arall, tebyg i lawer tro basiodd ar rywrai ereill, a'i sydynrwydd yn ddigon i lethu calon dyn. Gwelwn yma awr ddu yn gorddiwes yr aelwyd. Darfu i'r ymadawedig fwynhau iechyd cymharol dda ar hyd ei oes, hyd at rai blynyddau yn ol. Ac er mwyn adennill ychydig o'i iechyd, aeth am dro i Weston Super Mare, ac fel y deallwn cafodd amser dymunol iawn, oblegid dyn llawen ydoedd efe, a gwg nemor byth ar ei wedd. Ac wedi anfon ei lythyr at y teulu, yn cynnwys newyddion da, heddiw; ac yfory daeth pellebr yn hysbysu newydd gwahanol; a chyffrowyd ardal a thref. Goroesodd efe ei annwyl wraig oddiar ddydd Llun, Chwefror y 5ed, 1923. Cofiwn yn dda am dani, pan deimlai fawr sel dros yr achos yn y Graig a Gellionnen. Daethant yn aelodau o'r gynulleidfa flynyddoedd lawer yn ol; ac erbyn heddiw, unasant a chynulleidfa, yr hon ni all neb ei rhifo. Mae'n aros ar ol ddeg o blant, pedair merch a chwech mab. Tangnef Duw eto erys gyda phob un o'r plant a'r eiddynt. Ac eiddunwn Dduw yn rhwydd i Mrs. Roberts a'i theulu yn Laurel Cottage, Pontardawe; canys yno y cartrefodd efe yn hapus iawn. Cymerodd y cynhebrwng le ddydd Llun, Medi 2, a chladdwyd yng Ngellionnen, pryd y gweinyddodd y Parch. D. G. Rees, Trebanos.

Nodion yr Eglwysi.

ABERYSTWYTH.—A gaf fi apelio at weinidogion ac ereill a wyddant am fechgyn neu ferched ieuanc y sydd a'u bwriad i ddod i Goleg y Brifysgol yma neu i aros i'r dref ar ryw amcan arall, i yrru enwau y cyfryw i mi cynted ag y byddo modd ac hefyd i'w hannog i fynychu'r gwasanaeth yn y Capel bach yn yr Heol Newydd? Byddwn yn falch iawn i roesawu pwy bynnag ddaw yma o unrhyw un o'n cynulleidfaoedd ac i wneud ein gore i beri iddynt deimlo yn gartrefol mewn lle dieithr. Gyda chyd-weithrediad gellir disgwyl mwy o lwyddiant.—D. J. Davies, Arfron, Caergog.

ALLTYPLACA.—Dydd Gwener y 23ain o Awst, cynhaliwyd te parti'r plant. Yr oedd y tywydd yn ddymunol iawn—paratoadau cymwys wedi ei gwneud gan aelodau'r Capel a phawb yn eu hwyliau goreu. Ar ol y te ymneilltuwyd i gae a roddwyd at ein gwasanaeth gan Mr. Evans, Ffinant Arms, ac yno cafwyd chwareuon difyrus hyd fachludiad haul, a'r hên yn ogystal a'r ieuanc yn ymuno ynddynt. Y dydd Sul canlynol ar ol y gwasanaeth, anrhegwyd Mr. Jenkin Thomas, Castell House a *Fountain Pen* hardd, am ei waith fel dosbarthwr lleol yr YMOFYNNYDD am yn agos i ddeng mlynedd. Cyflwynwyd y rhodd iddo ar ran aelodau y gynulleidfa gan y Gweinidog—a diolchodd Mr. Thomas mewn geiriau hyfryd iawn.

AT EIN MYFYRWYR.—Bydd y Pwyllgor benodwyd i weinyddu Trysorfa'r Myfyrwyr yn cyfarfod tua diwedd mis Hydref. Bydded i'r Myfyrwyr sy'n golygu apelio am gynorthwy ddanfon eu ceisiadau i mi o hyn i Hydref 18fed.—E. O. JENKINS, Llwynmarles, Llandysul.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

Llywydd—Y Parch. J. PARK DAVIES, M.A., B.D., Caerfyrddin.

CYNHELIR

Cyfarfodydd Chwarterol

Y GYMDEITHAS UCHOD

Yng Nghapelygroes

Mercher ac Iau, Hydref 9 a 10, 1929.

Amserau'r Gwasanaethau—

Nos Fercher am 6.30 o'r gloch.

Dydd Iau, am 10 : Pwyllgor y Gymdeithas.

RHAGLEN—

1.—Darllen cofnodion y Pwyllgor Blynyddol.
2.—Adroddiad ar y Casgliad at Drysorfa'r Myfyrwyr.
3.—Ein pulpudau gweigion.
4.—Cyflwr ein Hysgolion Sul.
5.—Lle cynhaliad Cyfarfodydd y Pasc.
6.—Unrhyw fater arall.

Dydd Mercher am 2 o'r gloch.

Dydd Mercher am 6 o'r gloch.

—— CROESO CYNNES I BAWB. ——

D.S.—Oherwydd amgylchiadau buwyd dan orfod i newid y Cyfarfodydd i'r dyddiadau uchod.

E. O. JENKINS.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED).

Jeweller, Silversmith and Optician

1, Wind Street, Llandyssul.

A FINE SELECTION OF ARTISTIC EYE-WEAR.
ENGAGEMENT AND WEDDING RINGS.
AGENT FOR "HIS MASTER'S VOICE" AND ALL LEADING MAKES OF GRAMOPHONES.

OPTICAL DEPARTMENT UNDER THE DIRECTION OF

CECIL JONES, F.S.M.C., F.B.O.A., F.I.O. (London).

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR WINTER GARMENTS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS AM—

ARGRAFFU

Adroddiadau Blynyddol . . . . .
Llyfrau—o unrhyw faint . . . . .
Rhaglenni Cymanfa Ganu . . . .
Amlenni at y Weinidogaeth. . . .
Mur-lenni Cyfarfodydd, &c., &c. . .
Neu unrhyw fath o Argraffwaith—

Wedi eu gwneud gyda'r
Peiriannau diweddaraf

— AM BRISIAU RHESYMOL —

GYRRER ARCHEBION AT ARGRAFFWYR
"YR YMOFYNNYDD."

Y CYFEIRIAD YW—

J. D. LEWIS,

Argraffwyr : Gwasg Gomer,
LLANDYSUL.